cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Ffurflen Gadarnhad Caledi Ariannol

## Adran 1 - Eich Gwybodaeth

**DARLLENWCH YR ADRAN ISOD YN OFALUS CYN LLENWI'R FFURFLEN**

### 1. Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Cwblhewch y ffurflen hon os ydych yn teimlo eich bod yn wynebu caledi ariannol. Gall hyn fod oherwydd:

- Gordaliad cyllid i fyfyrwyr
- Gohirio neu dynnu'n ôl o'ch cwrs
- Angen dwyn taliad ymlaen i dalu costau

Yn gyntaf - edrychwch ar ein tudalen arweiniad **https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/myfyriwr-cymreig/beth-sydd-ar-gael/** i sicrhau eich bod wedi gwneud cais am unrhyw gyllid y gallech fod yn gymwys amdano. Dylech hefyd siarad â'ch prifysgol neu goleg, neu sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth **https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian/** oherwydd efallai y gallant gynnig cymorth a chyngor yn ychwanegol at yr hyn y gallwn ei gynnig.

---

### 2. Pa help sydd ar gael?

Mae'n bosibl y gallwch gael cymorth megis:

- Gohirio'ch gordaliad cyfan neu ran ohono
- Cael eich cyllid wedi'i ymestyn tra byddwch wedi gohirio neu dynnu'n ôl o'ch astudiaethau
- Dwyn taliad ymlaen

---

### 3. Pa wybodaeth sydd angen i mi ei darparu?

Mae angen i chi roi rhai manylion personol i ni a rhoi gwybod i ni gyda beth mae angen cymorth arnoch. Mae angen rhywfaint o wybodaeth arnom am eich incwm a'ch treuliau fel y gallwn adolygu eich cyfrif. Mae angen rhywfaint o dystiolaeth arnom hefyd i ddangos eich sefyllfa ariannol megis copïau o'ch cyfriflenni banc.

Gwyddom y gallai rhywfaint o wybodaeth fod yn sensitif felly a fyddech cystal â darparu pa wybodaeth y gallwch i'n helpu i ddeall eich amgylchiadau. Edrychwn ar bob cais fesul achos ac mae'r rhain yn gwbl gyfrinachol.

---

### 4. Beth os oes gennyf ragor o gwestiynau?

Os oes gennych gwestiynau pellach, gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050**.

---

### 5. I ble y dylwn anfon fy ffurflen?

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, lanlwythwch hi i'ch cyfrif ar-lein gyda chopïau o'ch tystiolaeth ategol.

Os ydych yn fyfyriwr ôl-raddedig neu os nad ydych yn gallu lanlwytho'ch ffurflen a'ch tystiolaeth ar-lein, dychwelwch hi i: **Cyllid Myfyrwyr Cymru, Blwch Post 211, Cyffordd Llandudno, LL30 9FU**.

I gael gwybod sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

# Adran 2 - Eich Manylion

**Cyfeirnod Cwsmer**

**Enw cyntaf**

**Cyfenw**

**Dyddiad geni (DDMMBBBB)** / /

## Manylion Cyswllt

Ticiwch y blwch i roi gwybod i ni beth yw'r ffordd orau o gysylltu â chi. Fydd y dewis yma ddim ond yn cael ei ddefnyddio i ddibenion asesu'r ffurflen hon.

| | Dewisol |
|---|---|
| **E-bost** | |
| **Symudol** | |
| **Cyfeiriad cyswllt** | |

# Adran 3 - Eich Amgylchiadau

Darparwch rywfaint o wybodaeth am eich amgylchiadau. Bydd yr wybodaeth a roddwch yn ein helpu i brosesu eich cais yn gyflym.

## 3.1 – Pa un o’r opsiynau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi?

- ☐ Mae gennyf ordaliad ar fy nghyfrif, ac rwy’n dal i astudio neu wedi graddio’n ddiweddar - **ewch i 3.2**
- ☐ Rwyf wedi gohirio fy astudiaethau - **ewch i 3.3**
- ☐ Rwyf wedi tynnu’n ôl o’m cwrs - **ewch i 3.4**
- ☐ Mae angen taliad cynnar arnaf - **ewch i 3.5**

## 3.2– Gordaliadau

| | | |
|---|---|---|
| A ydych yn mynychu eich cwrs ar hyn o bryd neu ar eich gwyliau haf? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| A yw’n fwy na 6 wythnos tan ddiwrnod cyntaf eich cwrs? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| A ydych eisoes wedi cael gordaliad wedi’i ohirio o fewn y flwyddyn academaidd? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

**nawr ewch i adran 4**

## 3.3 – Gohiriad

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi’n cwblhau arholiadau neu waith cwrs heb fynychu’ch cwrs? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

**nawr ewch i adran 4**

## 3.4 – Tynnu’n Ôl

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi wedi cael Grant Cynhaliaeth, Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol neu Grant Gofal Plant? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

**nawr ewch i adran 4**

## 3.5 – Taliadau Cynnar

| | | |
|---|---|---|
| Ydy hi’n fwy na 30 diwrnod tan ddiwrnod cyntaf eich cwrs? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Ydych chi mewn perygl o ddod yn ddigartref? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Oes gennych chi unrhyw ddibynyddion sy’n dibynnu arnoch chi’n ariannol? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Oes gennych chi gefnogaeth gan aelodau’r teulu? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| A oes gennych daliad cyllid myfyriwr yn ddyledus o fewn yr 11 diwrnod nesaf? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Ydych chi eisoes wedi derbyn taliad cynnar yn y flwyddyn academaidd hon? | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

**nawr ewch i adran 4**

# Adran 4 - Caniatâd i Rannu

**Beth yw caniatâd i rannu?**

Gallwch roi caniatâd i ni siarad am eich cyfrif gyda sefydliad neu berson arall, yr enw ar hyn yw caniatâd i rannu. Gallwch sefydlu hyn os oes angen help arnoch gyda'ch cais neu gyfrif ac eisiau i rywun arall siarad â ni. Gallwn rannu gwybodaeth a diweddariadau am eich cyfrif, ond ni allwn drafod eich manylion banc. Rhaid i chi ddweud wrth y sefydliad neu'r person eich bod wedi rhoi eu manylion i ni.

**4.1** Hoffech chi roi caniatâd i rywun arall drafod eich cyfrif?

☐ Iawn - **parhewch â'r adran hon**

☐ Na - **ewch i adran 5**

Bydd y caniatâd hwn i rannu yn berthnasol i bob agwedd ar eich cyfrif cyllid myfyrwyr, gan gynnwys:

- Ceisiadau am Grantiau Dibynyddion; a
- Lwfans Myfyrwyr Anabl, a all gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif am anableddau neu gyflyrau meddygol.

Bydd y Caniatâd Rhannu hwn ond yn berthnasol o'r “Dyddiad gweithredol o” i'r “Dyddiad gweithredol hyd” a ddarperir gennych.

**Os ydych am sefydlu caniatâd i rannu ar gyfer person unigol - ewch i 4.2**

**Os ydych am sefydlu caniatâd i rannu ar gyfer sefydliad - ewch i 4.3**

## 4.2 Rhoi caniatâd ar gyfer person unigol

Bydd yn rhaid i'r sawl a enwebwch gadarnhau'r holl fanylion a restrir isod, ac eithrio'r dyddiadau gweithredol o ac i, pryd bynnag y bydd yn ein ffonio.

| | |
|---|---|
| **Enw cyntaf** | |
| **Cyfenw** | |
| **Dyddiad geni (DDMMBBBB)** | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| **Perthynas â chi** | |
| **Cyfeiriad cyswllt** | |
| **Cod Post** | |
| **Dyddiad gweithredol o (DDMMBBBB)** | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| **Dyddiad gweithredol hyd (DDMMBBBB)** | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| **Caniatâd i rannu cyfrinair** | |

Gwnewch gyfrinair newydd a'i roi i'r person a enwebwch. Gofynnir iddynt ei gadarnhau unrhyw bryd y byddant yn galw a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y caniatâd hwn i rannu yn unig. Dim ond eich person enwebedig fydd yn defnyddio'r cyfrinair hwn, nid yw'n disodli'r cyfrinair rydych yn ei ddefnyddio i fewngofnodi i'ch cyfrif cyllid myfyrwyr ar-lein.

**Nawr ewch i 4.4**

# Adran 4 - Caniatâd i Rannu (Parhad)

## 4.3 Rhoi caniatâd i sefydliad

Bydd yn rhaid i'r sefydliad a enwebwch gadarnhau'r holl fanylion a restrir isod, ac eithrio'r dyddiadau gweithredol o ac i, pryd bynnag y bydd yn ein ffonio.

**Enw'r cwmni, prifysgol neu goleg** [ ]

**Perthynas â chi** [ ]

**Dyddiad gweithredol o (DDMMBBBB)** [ ][ ] / [ ][ ] / [ ][ ][ ][ ]

**Dyddiad gweithredol hyd (DDMMBBBB)** [ ][ ] / [ ][ ] / [ ][ ][ ][ ]

**Caniatâd i rannu cyfrinair** [ ]

Gwnewch gyfrinair newydd a'i roi i'r sefydliad a enwebwch. Gofynnir iddynt ei gadarnhau unrhyw bryd y byddant yn galw a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y caniatâd hwn i rannu yn unig. Dim ond eich sefydliad enwebedig fydd yn defnyddio'r cyfrinair hwn, nid yw'n disodli'r cyfrinair rydych yn ei ddefnyddio i fewngofnodi i'ch cyfrif cyllid myfyrwyr ar-lein.

**Nawr ewch i 4.4**

## ! 4.4 Ticiwch y blychau isod os ydych yn cydsynio i'r canlynol

Rhaid i chi gytuno i'r ddau ddatganiad er mwyn i ni sefydlu caniatâd i rannu.

- [ ] Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru gyfnewid gwybodaeth am fy nghyfrif cyllid myfyrwyr gyda'r person neu'r sefydliad a enwir uchod, lle bo angen gwneud hyn i asesu fy nghais am gyllid myfyrwyr neu fy nghais am gymorth caledi ariannol.
- [ ] Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.

**I dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd, cysylltwch â ni.**

# Adran 5 – Gwybodaeth Ategol

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am eich amgylchiadau presennol, gan gynnwys unrhyw beth yr ydych wedi ceisio'ch helpu i ddod allan o galedi ariannol. Rydym yn deall y gall yr wybodaeth hon fod yn sensitif, ond a fyddech cystal â darparu unrhyw beth perthnasol a fydd yn ein helpu i brosesu eich cais.

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon.

# Adran 6 - Anfon Eich Cyfriflen(ni) Banc

**Pam fod angen i mi anfon cyfriflenni banc?**

Yn yr adrannau canlynol byddwn yn gofyn i chi am eich amgylchiadau ariannol a bydd eich cyfriflenni banc yn cadarnhau hyn. Pan fyddwch yn datgan swm, dylai ddangos ar eich cyfriflen banc neu dystiolaeth amgen.

**Beth sydd angen i mi ei anfon?**

Anfonwch gopïau o'ch cyfriflenni banc ar gyfer eich holl gyfrifon atom. Rhaid iddynt gwmpasu'r tri mis diwethaf hyd at y dyddiad y byddwch yn anfon y ffurflen hon (neu mor agos â phosibl). Os ydych yn bancio ar-lein, dylech allu lawrlwytho eich cyfriflenni banc o'ch cyfrif ar-lein.

Rhaid i'ch cyfriflenni ddangos:

- 4 digid olaf rhif eich cyfrif
- eich enw llawn
- eich cyfeiriad cartref presennol
- balans cychwynnol
- balans cau
- unrhyw ddeiliaid cyfrif eraill a enwir
- dyddiadau cyfnod cyfriflen a dyddiadau trafodion

## Enghraifft o sut y dylai eich cyfriflen banc edrych pan fydd yn barod i'w hanfon:

**Cofiwch fod angen copïau arnom ar gyfer eich holl gyfrifon ar gyfer y 3 mis diwethaf.**

**Enw'r cyfrif: Miss C Myfyrwyr** **Rhif cyfriflen: 02/2016**
**Rhif cyfrif: 12345678** **Cod Didoli: 12-34-56**
**Cyfeiriad: 43 Rhodfa'r Brifysgol, WA7 8DR**

| Dyddiad | | Disgrifiad | Arian i mewn | Arian allan | £ Balans |
|---|---|---|---|---|---|
| 1st Chwe | ATM | CODI ARIAN YN ATM PEIRIANT ARIAN HEOL Y FRENHINES – CAERDYDD, 30.00 GBP, AR 01-02-2016 | | 30.00 | -1,244.34 |
| 1st Chwe | ATM | CODI ARIAN YN ATM SAINSBURYS CATHAYS CAERDYDD, 20.00 GBP, AR 01-02-2016 | | 20.00 | -1,264.34 |
| 2nd Chwe | | LLOG A DALWYD AR ÔL DIDYNNU 0.00 TRETH | 0.01 | | -1,264.33 |
| 2nd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I WWW.ACEPARKINGGATWICK., 78.99 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 29-01-2016 | | 78.99 | -1,343.32 |
| 2nd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I PHO BRIGHTON, 11.75 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 29-01-2016 | | 11.75 | -1,355.07 |
| 2nd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I PRIMARK, 15.00 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 29-01-2016 | | 15.00 | -1,370.07 |
| 2nd Chwe | | TALU ARIAN I MEWN YN WOOD GREEN 28 HR | 700.00 | | -670.07 |
| 2nd Chwe | | TALU BIL TRWY DALIAD CYFLYMACH I | | 435.00 | -1,105.07 |
| 2nd Chwe | ATM | CODI ARIAN YN NATIONWIDE BUILDING SOCIETY YN WEST STREET, BRIGHTON, 10.00 GBP, AR 02-02-2016 | | 10.00 | -1,115.07 |
| 3rd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I WILKO RETAIL LIMIT, 1.50 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 01-02-2016 | | 1.50 | -1,116.57 |
| 3rd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I ASDA PETROL 5118, 24.15 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 01-02-2016 | | 24.15 | -1,140.72 |
| 3rd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I SELECT, 16.97 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 01-02-2016 | | 16.97 | -1,157.69 |
| 3rd Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I SPOUTERS CORNER. 5.89 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 01-02-2016 | | 5.89 | -1,163.58 |
| 4th Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN PASHA CLINIC. 50.00 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 01-02-2016 | | 50.00 | -1,213.58 |
| 4th Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN WWW.SMARTBUSES.CO.UK, 3.00 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 02-02-2016 | | 3.00 | -1,216.58 |
| 5th Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I ASDA SUPERSTORE, 6.62 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 04-02-2016 | | 6.62 | -1,289.10 |
| 6th Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I Amazon Svcs Europe, 7.99 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 04-02-2016 | | 7.99 | -1,297.09 |
| 6th Chwe | DEBYD | TALIAD CERDYN I ASDA SUPERSTORE, 17.15 GBP, CYFRADD 1.00/GBP, AR 04-02-2016 | | 17.15 | -1,314.24 |
| 6th Chwe | | DERBYNNEB TALIAD CYFLYMACH | 440.00 | | -874.24 |

# Adran 7 - Eich Incwm Misol Rheolaidd

Dywedwch wrthym am eich incwm misol rheolaidd.

**Awgrymiadau ar gyfer cwblhau'r adran hon**

- Os oes gennych bartner sy'n cyfrannu at eich treuliau, biliau cyfleustodau ac ati, dylid cofnodi'r rhain o dan y blwch 'Cymorth gan deulu neu ffrindiau'.
- Os cewch eich talu'n wythnosol - lluoswch eich cyflog wythnosol â 52, yna rhannwch ef â 12. Os cewch eich talu bob pythefnos - lluoswch eich cyflog bob pythefnos â 26, yna rhannwch ef â 12.

## Eich incwm misol rheolaidd

**! Pan fyddwch yn datgan swm, dylai ddangos ar eich cyfriflen banc. Os nad ydyw, anfonwch dystiolaeth yn dangos eich incwm.**

| | |
|---|---|
| **Cyflogau / tâl** | £ |
| **Hunangyflogaeth** | £ |
| **Budd-dal Plant** | £ |
| **Credydau Treth Plant** | £ |
| **Credyd Treth / Credyd Cynhwysol** | £ |
| **Budd-dal Tai** | £ |
| **Lwfans Gofalwr** | £ |
| **Lwfans Byw i'r Anabl / Taliad Annibyniaeth Bersonol** | £ |
| **Cymhorthdal Incwm** | £ |
| **Taliadau Cynhaliaeth plant** | £ |
| **Cymorth gan deulu neu ffrindiau** | £ |
| **Cymorth ariannol gan brifysgol** | £ |
| **Grant Hyfforddi neu Fwrsariaeth GIG** | £ |
| **Arall** | £ |

# Adran 8 - Eich Treuliau Misol Rheolaidd

Rhowch wybod i ni am eich treuliau misol rheolaidd.

**Awgrymiadau ar gyfer cwblhau'r adran hon**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym swm eich rhent neu forgais. Os nad yw'n dangos ar eich cyfriflen banc, mae angen i chi anfon tystiolaeth arall.
- Dylech ddatgan eich treuliau eich hun yn unig. Os oes gennych chi bartner, peidiwch â chynnwys unrhyw dreuliau y mae'n eu talu.
- Os na fyddwch yn talu rhai treuliau'n fisol, bydd angen i chi gyfrifo'r swm misol. Os yw eich taliad bob chwarter, rhannwch y swm rydych yn ei dalu â 3. Os yw bob 6 mis rhannwch ef â 6. Os yw unwaith y flwyddyn, yna rhannwch ef â 12.

## Eich treuliau misol rheolaidd

Pan fyddwch yn datgan swm, dylai ddangos ar eich cyfriflen banc. Os nad ydyw, anfonwch dystiolaeth yn dangos eich treuliau.

| | |
|---|---|
| **Rhent / morgais** | £ |
| **Biliau gwasanaethau: nwy / trydan / dŵr**<br>Os ydych yn talu am ffôn symudol, dylid ychwanegu hwn o dan cyfathrebu a hamdden yn adran 9. | £ |
| **Y dreth gyngor** | £ |
| **Yswiriant: bywyd / cynnwys / car**<br>Os ydych yn talu yswiriant ffôn symudol, dylid ychwanegu hwn o dan cyfathrebu a hamdden yn adran 9. | £ |
| **Costau gofal plant** | £ |
| **Benthyciadau / cardiau credyd / cytundebau cyllid** | £ |
| **Teithio**<br>Trafnidiaeth gyhoeddus, hurbwrcas neu gerbyd gwerthiant amodol, treth cerbyd, MOT a chynnal a chadw parhaus, Cynllun yswiriant torri i lawr, tanwydd a pharcio. | £ |
| **Costau iechyd**<br>Presgripsiynau, moddion, deintyddiaeth ac optegwyr. | £ |
| **Costau cwrs**<br>Llyfrau cwrs, deunydd ysgrifennu, tanysgrifiadau, meddalwedd, teithiau a gwibdeithiau. | £ |

**Gallwch ddarparu treuliau ychwanegol yn adran 9.**

# Adran 9 - Eich Treuliau Misol Ychwanegol

Dywedwch wrthym am unrhyw dreuliau misol ychwanegol.

**Awgrymiadau ar gyfer cwblhau'r adran hon**

- Os na fyddwch yn talu rhai treuliau'n fisol, bydd angen i chi gyfrifo'r swm misol. Os yw eich taliad bob chwarter, rhannwch y swm rydych yn ei dalu â 3. Os yw bob 6 mis rhannwch ef â 6. Os yw unwaith y flwyddyn, yna rhannwch ef â 12.
- Os ydych chi'n rhannu eich treuliau misol gyda'ch partner, dylech ddatgan eich cyfraniad chi yn unig.

## Eich treuliau misol ychwanegol

! Pan fyddwch yn datgan swm, dylai ddangos ar eich cyfriflen banc. Os nad ydyw, anfonwch dystiolaeth yn dangos eich treuliau. Os nad oes gennych dystiolaeth, eglurwch y gost yn yr adran nodiadau ychwanegol.

| | | |
|---|---|---|
| **Bwyd a chadw tŷ**<br>Nwyddau groser, clytiau ac eitemau i'r babi, golchi dillad a sychlanhau, sigaréts, alcohol, yswiriant milfeddyg ac anifeiliaid anwes, cynnal a chadw ac atgyweiriadau anheddiad. | £ | |
| **Cyfathrebu a hamdden**<br>Ffôn symudol, Rhyngrwyd, pecyn teledu, hobïau, anrhegion, arian poced, papurau newydd, deunydd ysgrifennu. | £ | |
| **Costau personol** | £ | |
| **Arall (nodwch)** | | £ |
| | | £ |
| | | £ |
| | | £ |

# Adran 10 - Eich Dyledion

**10.1 A oedd gennych unrhyw ddyledion heb eu talu neu daliadau a fethwyd?**

☐ **Oedd -** parhewch â'r adran hon

☐ **Nac oedd -** ewch i adran 11

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyledion sydd gennych.

## Eich dyledion

! Pan fyddwch yn dweud swm wrthym, rhaid i chi anfon tystiolaeth i'w gefnogi. Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym os ydych ar ei hôl hi gyda thaliadau ar gyfer unrhyw un o'r treuliau rydych wedi dweud wrthym amdanynt.

| | | |
|---|---|---|
| **Ôl-ddyledion rhent** | £ | |
| **Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor** | £ | |
| **Ôl-ddyledion biliau cyfleustodau** | £ | |
| **Ôl-ddyledion Trwydded deledu** | £ | |
| **Arall (nodwch)** | | £ |
| | | £ |
| | | £ |
| | | £ |

# Adran 11 – Rhestr Wirio Tystiolaeth

**Cwblhewch y rhestr wirio ganlynol i'ch helpu i sicrhau bod eich ffurflen yn gyflawn.**

☐ Rwyf wedi cynnwys fy nghyfriflenni banc ar gyfer fy holl gyfrifon banc.

☐ Rwyf wedi cynnwys tystiolaeth ar gyfer unrhyw incwm neu draul yr wyf wedi'i ddatgan nad yw'n ymddangos ar fy natganiad banc.

☐ Rwyf wedi cynnwys nodiadau ychwanegol ar gyfer yr holl dreuliau lle na allwn ddarparu tystiolaeth.

☐ Rwyf wedi rhestru'r holl ddyledion ac wedi cynnwys tystiolaeth lle bo'n briodol.

# Adran 12 - Datganiad

Cadarnhaf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod yr wybodaeth yr wyf yn ei darparu yn wir ac yn gyflawn.

**Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)**

**Eich llofnod (mewn inc)**

**X**

**Dyddiad heddiw (DDMMBBBB)**

__ __ / __ __ / __ __ __ __

**Os yw'r ffurflen yn cael ei lanlwytho trwy eich cyfrif ar-lein, nid oes angen i chi lofnodi'r datganiad. Os na chaiff y ffurflen ei lanlwytho drwy eich cyfrif ar-lein eich hun, na'i hanfon atom drwy'r post, rhaid i chi lofnodi a dyddio'r datganiad neu ni ellir ei derbyn.**

## Beth sy'n digwydd nesaf? Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, lanlwythwch hi i'ch cyfrif ar-lein gyda chopïau o'ch tystiolaeth ategol. Sylwer, os ydych yn fyfyriwr ôl-raddedig, mae angen i chi ei dychwelyd drwy'r post.

**I lanlwytho'ch ffurflen a'ch tystiolaeth**

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif cyllid myfyrwyr yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
2. Dewiswch israddedig
3. Dewiswch y flwyddyn academaidd ddiweddaraf
4. Dewiswch 'lanlwytho dogfennau ategol' o dan y pennawd 'eich cyllid myfyriwr'
5. Lanlwythwch gopïau clir o'ch ffurflen a thystiolaeth ategol

Dylid anfon pob ffurflen a ddychwelir drwy'r post at:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**

**Blwch Post 211**

**Cyffordd Llandudno**

**LL30 9FU**

Byddwn yn prosesu eich ffurflen cyn gynted â phosibl. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

## Gwybodaeth am ordaliadau

**Os byddwch yn parhau â’ch astudiaethau y flwyddyn nesaf**

Os byddwch yn cael gordaliad grant neu fenthyciad a ohiriwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol hyd at ddyddiad diweddarach, ac yn parhau â’ch cwrs i’r flwyddyn academaidd nesaf, bydd unrhyw falans(au) gordaliad sy’n weddill yn cael ei adennill o’ch cyllid yn y dyfodol. Os na allwch fforddio hyn gallwch wneud cais eto am gymorth caledi ariannol ac os caiff ei dderbyn gellir gohirio’r gordaliad cyfan neu rywfaint ohono eto.

**Os ydych yn gymwys i gael benthyciad a grant(iau)**

Os byddwch yn gwneud cais am gymorth caledi ariannol a dim ond rhan o’ch gordaliad ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol sy’n cael ei ohirio tan ddyddiad diweddarach, byddwn yn dal i geisio adennill y swm sy’n weddill o’r cyllid y flwyddyn academaidd gyfredol. Os yw hyn yn wir, byddwn yn blaenoriaethu adennill y gordaliad o’ch hawl i gael benthyciad fel eich bod yn talu llai o log.

Os hoffech i ni ystyried opsiynau eraill, rhowch fanylion y rhain yn yr adran nodiadau ychwanegol ar y dudalen nesaf. Efallai y byddwn wedyn yn cysylltu â chi i drafod hyn pan fyddwn yn adolygu eich cais.

# Nodiadau Ychwanegol